



Gwersyll Glan-Ilyn

Tystysgrif Iechyd

Rhiant neu berson â chyfrifoldeb rhiant yn unig ddylai lenwi'r ffurflen hon



Enw Llawn..... Dyddiad Geni Oed

Cyfeiriad

Côd Post E-bost y plentyn

Ysgol Dyddiadau'r Cwrs

Enw eich meddyg

Cyfeiriad eich meddyg

Rhif Ffôn eich meddyg Rhif Cerdyn Meddygol

Dyddiad pigiad anti-tetanus diwethaf

Ydy'r gweryllwr yn dioddef oddi wrth unrhyw afiechyd/alergedd sy'n galw am sylw arbennig e.e. asthma, cur pen, epilepsy, diabetes, alergedd i benisilin, bwydydd arbennig, anifeiliaid, plaster, ac ati? **YDY / NAC YDY**

Os YDY, rhowch fanylion manwl a thriniaeth (defnyddiwch dudalen arall os oes angen)

Nodwch unrhyw salwch/triniaeth ddiweddar, h.y. o fewn 3 mis diwethaf

Ambell dro, mae angen triniaeth/meddyginiaeth 'syml' ar wersyllwr, e.e. rhoi plaster, 'paracetamol', 'savlon', triniaeth pigiad pryfed/gwenyn, llosg haul. A ydych yn caniatáu i staff llawn amser yr Urdd roi triniaeth 'syml' i'ch plentyn? **YDW / NAC YDW**

Fe ddigwydd weithiau fo angen triniaeth lawfeddygol ar wersyllwr yn ystod ei arhosiad yn y Gwersyll. Beth bynnag fo'r achos, fe fydd y Cyfarwyddwr yn ceisio cysylltu â'r rhieni fel y medrant roi eu caniatâd i'r driniaeth. Weithiau, mae'n anodd neu'n amhosibl cael gafael arnynt. Pan ddigwydd hynny neu bod unrhyw reswm arall pam na fedrir cysylltu â'r rhieni o fewn amser rhesymol, gofynnir am ganiatâd i'r Cyfarwyddwr weithredu yn absenoldeb y rhieni, a rhoi caniatâd i'r driniaeth angenrheidiol os byddai unrhyw oedi pellach ym marn y meddyg neu'r llawfeddyg yn debygol o beryglu iechyd a diogelwch y plentyn. Mae'n ddealedig, wrth gwrs, na fydd y Cyfarwyddwr yn gweithredu ond mewn achos o raid. Os cytunwch a wnewch chi arwyddo'r caniatâd isod.

Pe digwyddai fod angen triniaeth lawfeddygol ar fy mab/merch..... tra yn y Gwersyll, ac nad oes modd cysylltu â'r rhieni o fewn amser rhesymol, rhoddir caniatâd i'r Cyfarwyddwr awdurdodi y driniaeth angenrheidiol.

Ar ôl darllen y daflen Gwybodaeth Gyffredinol amgaeëdig, 'rydw i'n hapus i'm mab/merch fynychu'r Gwersyll.

Arwyddwyd (rhiant neu'r person a chyfrifoldeb rhiant)

Perthynas i'r plentyn.....

Rhifau ffôn dydd a nos

Rhif ffôn symudol E-bost

Enw a rhif ffôn arall i gysylltu ag ef mewn argyfwng, e.e. os ydych yn bwriadu mynd i ffwrdd tra bod eich mab/merch yng Nglan-Ilyn, a'r perthynas, e.e. taid, nain, modryb, ffrind i'r teulu.

RHAID DOD Â'R FFURFLEN HON I'R GWERSYLL. NI DDYLID EI HANFON YMLAEN LLAW

Mae amryw o gyrsiau anturus a chyffrous yng Nglan-Ilyn. Oes gennych chi ddiddordeb mewn derbyn gwybodaeth am gyrsiau sy'n addas ar gyfer eich mab/merch yn y dyfodol? **OES [] NAC OES []**

Annwyl Riant

Edrychwn ymlaen at groesawu'ch plentyn i Wersyll yr Urdd Glan-Ilyn. Yn y llythyr hwn cewch wybodaeth am y Gwersyll a'r hyn fydd ei angen ar eich plentyn.

Urdd Gobaith Cymru, elusen addysgiadol gofrestredig sy'n berchen Gwersyll Glan-Ilyn. Ar ôl cyrraedd bydd eich plentyn yn cael ei leoli mewn ystafell gysgu sy'n amrywio mewn maint. Bydd eich plentyn yn rhannu gyda ffrindiau o'r un ysgol/adran/aelwyd neu ardal. Bydd un o reolwyr y Gwersyll yn rhoi gair o groeso ac yn esbonio trefn a rheolau Glan-Ilyn, er mwyn sicrhau bod y cyfnod yn un hapus a llwyddiannus i bawb.

Ymhlith y **Rheolau** pwysleisir y canlynol –

- i gadw draw o'r llyn a lleoliadau gweithgareddau eraill oni bai am gyfnodau gweithgareddau penodol
- i gadw oddi fewn i ffiniau'r Gwersyll
- y nhw sy'n gyfrifol am gadw'r Gwersyll a'u hystafelloedd personol yn lân a thaclus ac i barchu eiddo'r Gwersyll ac eiddo pobl eraill
- i gadw draw o goridorau, ystafelloedd cysgu ac ystafelloedd gweithio pobl eraill
- y rheolau tân
- trefn ac amseroedd bwyd, unrhyw anghenion bwyd arbennig
- y drefn yn ystod y dydd a'r nos pan fo rhywun yn sâl/dost neu â phroblem
- pwysigrwydd glanweithdra personol
- lleoliad y caban sychu
- trefn gweithgareddau

Safonau Diogelwch

Mae Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn wedi'i gofrestru gan yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur i ddarparu gweithgareddau penodol. Gellir cadarnhau manylion y drwydded trwy gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu 029 2075 5715. 'Rydym yn adolygu ein systemau yn rheolaidd ac yn sicrhau safon ein hoffer yn gyson. Mae pob aelod o staff â thystysgrif Cymorth Cyntaf.

Mae'r Gwersyll wedi cyrraedd safon Buddsoddwr Mewn Pobl.

Canllawiau

Mae gennym ganllawiau a pholisiau pendant a manwl ar gyfer pob agwedd o waith a gweithgareddau'r Gwersyll. Mae copïau ar gael ar wefan yr Urdd.

Tystysgrif Iechyd

Mae'n bwysig iawn bod eich plentyn yn dod â'r dystysgrif iechyd amgaeedig wedi'i gwblhau i'r Gwersyll. Os oes gan eich plentyn unrhyw afiechyd neu anghenion arbennig, rhaid eu nodi ar y dystysgrif. A wnewch chi sicrhau y bydd eich plentyn yn ymweld â Swyddfa'r Gwersyll yn ddiymdroi pe bai ganddo/ganddi unrhyw broblem fel y gellir delio â'r mater ar unwaith.

Rhaglen

Mae rhaglen y cwrs yn un llawn ac yn rhoi cyfle i'r gwersyllwyr flasgu nifer o weithgareddau amrywiol. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn ddiabynnol ar natur y cwrs. Arweinydd y cwrs mewn ymgynghoriad â'r reolwyr sy'n penderfynu ar y rhaglen. Mae gan y Gwersyll offer a dillad addas ar gyfer yr holl weithgareddau.

Tywydd Drwg

Gall tywydd drwg effeithio rhai o'r gweithgareddau. Cymerir y penderfyniad i newid yr amserlen ar sail diogelwch.

Fe fydd angen y canlynol –

- sach gysgu a gorchudd gobennydd
- dillad nos, offer ymolchi, tywelion
- dillad sbâr, nid y 'dillad gorau'
- esgidiau ymarfer, a hen bâr y gellir eu gwlychu ar ymweliad â'r llyn
- anorac neu got law
- menig a het
- dillad nofio, dillad chwaraeon, a dillad y gellir eu gwlychu ar y llyn – nid jîns
- ar gyrsiau iaith/addysgol – pensel a llyfr ysgrifennu

Ar gyrsiau awyr agored pur cewch ragor o fanylion a gwybodaeth ar wahân. Ar gyrsiau Gwaith Maes dylid ychwanegu –

- pâr o welingtons a phâr o esgidiau cerdded
- cyfrifiannell ac onglydd
- clipfwrdd

Dylech sicrhau bod enw eich plentyn ar bob dilledyn ac offer.

Ni ddylai eich plentyn ddod â'r canlynol –

- radio, chwaraewr caset/CDd, stereo personol
- cyllell boced
- fflach lamp
- ysgrifbin ffelt
- gemau fideo, taclau drud
- gwm cnoi, chwistrellydd aerosol
- ffôn symudol
- tybaco, alcohol neu unrhyw gyffur nas ceir ar bresgripsiwn (dylid nodi unrhyw gyffur sydd ar bresgripsiwn ar y dystysgrif iechyd)

Os digwydd i wersyllwyr ddod â'r uchod i'r Gwersyll, rydym yn eu casglu ar ddechrau'r cwrs ac yn eu cadw'n ddiogel hyd nes eu bod yn gadael.

Rhif ffôn	Swyddfa:	01678 541 000
	Cioseg:	01678 540 225

Eiddo Gwerthfawr

Mae cyfle i'r gwersyllwyr adael unrhyw eiddo gwerthfawr, e.e. camera, yn y swyddfa; gallant ei nôl a'i ddefnyddio fel bo'r angen.

Bwyd

Darperir pedwar pryd o fwyd bob dydd gyda bwydlen wahanol i lysieuwyr. Os oes gennych anghenion arbennig oherwydd iechyd, byddwch gystal â nodi hynny ar y dystysgrif iechyd.

Siop

Mae gennym siop yn y Gwersyll sy'n gwerthu losin/fferins, pop ac anrhegion. Bydd y siop ar agor yn ôl dymuniadau arweinydd y cwrs. Mae

nifer o beiriannau diodydd oer/poeth/fferins/losin ar gael trwy'r dydd.

Staff

Staff proffesiynol sydd â'r cyfrifoldeb dros weinyddu Glan-Ilyn a staff llawn amser sydd yng ngofal gweithgareddau awyr agored yn ogystal â hyfforddwyr tymhorol a gyflogir dros gyfnodau penodol. Mae staff proffesiynol rhanbarthol yr Urdd yn ein cynorthwyo ar gyrsiau penodol ynghyd â nifer o swyddogion gwirfoddol ac athrawon.

Ad-daliadau

Ni roddir ad-daliad o unrhyw flaendal, oni bai am resymau meddygol yn unig. Rhaid cyflwyno papur meddyg a cheir ad-daliad o 50%. Ar ôl cychwyn cwrs, ni roddir ad-daliad o'r blaendal. Ceir ad-daliad o 50% o'r gweddill am resymau meddygol yn unig a hynny ar sail nifer o'r dyddiau a gollir.

Yswiriant

Mae gan yr Urdd Yswiriant hyd at £10 miliwn rhag unrhyw esgeulustod ar ran trefniant yr Urdd. Nid oes yswiriant personol i wersyllwyr yn gynwysedig yn y tâl gwersyll. Dylai rhieni wneud trefniadau eu hunain os ydynt yn dymuno polisi rhag damwain, salwch, colli eiddo ac ati.

Edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn i wersyll Glan-Ilyn. Mae dros 12,500 o wersyllwyr yn aros yma yn flynyddol ac yr ydym yn falch iawn o'r gofal a'r hyn a gynigir yma. Rydym yn siŵr y bydd eich plentyn yn mwynhau ac yn elwa'n fawr o'r profiad o aros mewn canolfan breswyl.

Os oes unrhyw ymholiad gennych am drefniant y Gwersyll neu unrhyw broblem a gododd yn ystod arhosiad eich plentyn, yna cysylltwch â ni ar unwaith. Ceir mwy o wybodaeth am wersyll Glan-Ilyn ar ein gwefan.

Hwyl

Staff Glan-Ilyn

Gwersyll Glan-Ilyn, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7ST

Ffôn: (01678) 541000 **Ffacs:** (01678)541001

glan-llyn@urdd.org www.urdd.org/glanllyn